

**ADRODDIAD HYSBYSU, CYNGHORI, SICRWYDD Y PWYLLGOR
I'R BWRDD**

Pwyllgor:	Pwyllgor Craffu
Dyddiad y Cyfarfod:	2 Mai 2024
Cadeirydd:	Marcus Longley

EITEMAU ALLWEDDOL A DRAFODWYD YN Y CYFARFOD

HYSBYSU (rhoi gwybod i'r Bwrdd am unrhyw feysydd o bwysigrwydd arbennig neu frys)

Mater	Diweddariad y Pwyllgor	Sicrwydd a Dderbyniwyd	Gweithredu	Amserlen

CYNGHORI (cynghori'r Bwrdd ar unrhyw feysydd monitro parhaus neu unrhyw ddatblygiadau newydd sydd angen eu rhannu gyda'r Bwrdd)

Mater	Diweddariad y Pwyllgor	Sicrwydd a Dderbyniwyd	Gweithredu	Amserlen
Prosiect adolygu Safonau AR a PR	Derbyniodd y Pwyllgor gynllun ar gyfer y prosiect i adolygu Safonau AR a PR fel prosiect ar y cyd.	Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynllun, ond cwestiynodd yr amserlenni, a oedd yn dynn iawn. Nododd y Pwyllgor y dylai'r amserlenni gyd-fynd â'r gwaith sydd ei angen, yn hytrach na cheisio'i gwblhau erbyn dyddiad penodol.	Amserlenni i'w hadolygu ar gyfer y prosiect.	Mai 2024 (cwblhawyd)
Golwg fanwl ar Gofrestrau Achrededig	Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar y golwg fanwl, a oedd yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau.	Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y penderfyniadau a wneir yn gadarn. Cytunodd y Pwyllgor ag argymhellion i archwilio opsiynau ar gyfer penderfynwyr unigol (yn seiliedig ar risg y penderfyniad) a datblygu dull mwy strwythuredig o ymdrin ag argymhellion a gyhoeddir i gofrestrau ac ar gyfer nodi risgiau ac arfer da.	Tynnodd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd gallu gwerthuso effeithiolrwydd unrhyw newidiadau i'r broses o wneud penderfyniadau ac awgrymodd gyfnod peilot i ganiatáu ar gyfer hyn.	Datblygu a gweithredu cynlluniau peilot ar gyfer dulliau newydd erbyn diwedd 2024.

<p>Cyferwerth â TAW Cofrestrau Achrededig</p>	<p>Adolygodd a chytunodd y Pwyllgor ar llythyr a phapur i'w hanfon at yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymwneud â'r hyn sy'n gyferwerth â TAW ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan ymarferwyr AR.</p>	<p>Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y llythyr wedi'i dargedu'n briodol ac nad oedd yn crwydro y tu hwnt i'n cylch gwaith.</p>	<p>Llythyr i'w anfon i'r Adran.</p>	<p>Mai 2024 (cwblhawyd)</p>
<p>Therapi trosi</p>	<p>Nododd y Pwyllgor gymhlethdod y maes hwn a thynnodd sylw at risgiau dulliau gweithredu dargyfeiriol ar draws pedair gwlad y DU.</p>	<p>Gofynnodd y Pwyllgor i'r tîm gadw golwg ar hyn, a ddylai gynnwys unrhyw gyd-destun rhyngwladol perthnasol.</p>	<p>Parhau i fonitro'r pwnc hwn.</p>	<p>Parhaus.</p>
<p>Ffynonellau gwybodaeth PR</p>	<p>Trafododd y Pwyllgor achos diweddar yr NMC ynghylch chwythu'r chwiban ac a oes ffynonellau tystiolaeth ychwanegol ar gael i'r tîm PR a fyddai'n caniatáu i faterion fel hyn gael eu canfod yn gynharach.</p>	<p>Cafodd y Pwyllgor drosolwg o ffynonellau tystiolaeth a adolygwyd gan y tîm PR yn rheolaidd.</p>	<p>Adolygiad o ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd yn PR i'w gyflwyno i'r Pwyllgor i'w trafod yn y dyfodol.</p>	<p>Cyfarfod Pwyllgor mis Tachwedd.</p>

SICRWYDD (sicrhau'r Bwrdd ar unrhyw feysydd o sicrwydd y mae'r Pwyllgor wedi'u derbyn)				
Mater	Diweddariad y Pwyllgor	Sicrwydd a Dderbyniwyd	Gweithredu	Amserlen
Rheoli cost S29	Derbyniodd y Pwyllgor bapur ar y dull rheoli costau a ddefnyddir ar gyfer gwaith S29.	Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y dull a ddefnyddiwyd.	Gofynnodd y Pwyllgor i bapur rheoli costau blynyddol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.	Mai/Awst 2025.
Amrywiaeth ym mhrosesau penodiadau Cyngor y rheoleiddwyr	Derbyniodd y Pwyllgor bapur a oedd yn amlinellu rhagor o fanylion am yr oruchwyliaeth o waith y rheoleiddwyr i wella amrywiaeth eu Cyngorau drwy'r broses benodi.	Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar ein goruchwyliaeth o'r gwaith hwn.	Gofynnodd y Pwyllgor i ystyriaeth gael ei rhoi i adrodd yn gyhoeddus ar yr agwedd hon ar waith rheoleiddwyr.	Cyfarfod Pwyllgor mis Awst.